# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together

02.09.21

Annwyl Riant / Gofalwr

Croeso nol! Gobeithio i chi gyd gael gwyliau haf hamddenol a difyr. Rwy'n siŵr bod pob disgybl yn edrych ymlaen yn eiddgar at ddychwelyd i'r ysgol.

Y diwrnod cyntaf yn ôl i ddisgyblion fydd dydd Llun 6ed o Fedi. Mae hwn ar gyfer **pob disgybl** gan gynnwys Meithrin.

**Oriau ysgol**
Clwb brecwast - Yn agor am **7.50am** – Cost £1.50 – Talwch wrth y drws. Dim mynediad ar ôl 8.35am
Mae clwyd yr Ysgol yn agor am **8.35am**
Cychwyn Ysgol **8.50am (gwnewch yn siŵr bod eich plentyn ar y safle erbyn 8.45am)**

Diwedd y dydd
Disgyblion Cyfnod Sylfaen - **Casglwch am 3.05pm** (Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1 a 2)
Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 - **Casglu am 3.20pm** (Blynyddoedd 3,4,5 a 6)
Byddwn yn parhau i ddilyn yr un cynllun un ffordd o ddisgyblion yn ffurfio llinellau dosbarth ar y buarth ac yna gall rhieni gerdded o gwmpas i gasglu eu plenty/plant.
Bydd plant rhieni sydd â brawd neu chwaer yn y ddau gyfnod allweddol ac sydd wedi gofyn am oruchwyliaeth yn cael eu cyrchu i'r buarth ar yr adeg briodol.

**Clwb Gofal**
Bydd Clwb Gofal yn ailagor fel arfer ddydd Llun Medi 6ed.

**Gwisg Ysgol**
Sicrhewch fod eich plentyn yn gwisgo gwisg ysgol a bod enw eich plentyn wedi'i farcio'n glir ar bob eitem o ddillad ac item personol.

- Siwmper goch yr ysgol
- Crys t polo gwyn
- Sgert neu drowsus du
- Esgidiau ysgol priodol, yn ddelfrydol du.

Mae grantiau gwisg ysgol ar gael. Os ydych chi'n teimlo bod gennych chi hawl i'r grant yma, cysylltwch â swyddfa'r ysgol.

**Cinio Ysgol**
Talwch am ginio ysgol eich plentyn gan ddefnyddio'r cyfrif sgwid. Cost cinio ysgol yw £ 2.30. Os nad oes gennych gyfrif sgwid, cysylltwch â'r swyddfa.

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**


**Byrbrydau**
Ar hyn o bryd, nid ydym yn darparu llaeth a ffrwythau yn yr ysgol. Anfonwch ddiod (dŵr yn ddelfrydol) a ffrwythau ar gyfer byrbryd eich plentyn amser egwyl.

**Covid 19**
Ni fydd angen pellhau cymdeithasol, ond mae'r canllawiau gweithredol yn gofyn ein bod yn annog rhieni i wisgo mygydau ar y buarth. Nid oes disgwyl i swigod gael eu cynnal yn yr ysgol. Bydd TTP yn penderfynu pwy fydd angen hunan-ynysu os oes achos cadarnhaol. **Peidiwch ag anfon eich plentyn i'r ysgol os oes ganddo unrhyw un o symptomau Covid 19**. Dilynwch y cyngor ar wefan y llywodraeth.
https://llyw.cymru/os-oes-symptomau-gyda-chi-oes-angen-help-meddygol-arnoch-am-y-coronafeirws

Os hoffech chi siarad â'ch athro dosbarth ar ddiwedd y diwrnod ysgol, **arhoswch i un ochr** nes bod eich athro dosbarth wedi rhyddhau ei holl ddisgyblion yn ddiogel i'r rieni neu gwnewch apwyntiad i siarad â'ch athro. Byddwn nawr yn dechrau gweld rhieni yn yr ysgol, ond trwy apwyntiad yn unig.

Bydd llythyron casglu data yn cael eu danfon yr wythnos nesaf, ond os oes angen i chi ddiweddaru eich manylion cyswllt gyda'r swyddfa, cysylltwch â ni.

Yn Gywir,



Elin Wakeham
Pennaeth

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**